

CONTRACT YMGYNGHORI

DYDDIEDIG _____ 20[]

CYNGOR SIR

- a -

RHOI ENW'R YMGYNGORYDD

CONTRACT AR GYFER GWASANAETHAU YMGYNGHORI

RHOI MANYLION Y GWASANAETH YMGYNGHORI

RHWNG:

(1) **CYNGOR SIR** ; (y “Cyngor”) a

(2) **(ENW'R YMGYNHGORYDD)** gyda rhif cofrestredig (os yn gymwys) a'r cyfeiriad cofrestredig (cyfeiriad yr Ymgynghorydd), (yr "**Ymgynghorydd**").

Gelwir pob un yn “Barti” i'r Contract yma, a gyda'i gilydd yn “Partïon”.

YN GYMAINT Â BOD:

- (A) Y Cyngor yn dymuno derbyn y Gwasanaethau Ymgynghori a nodir yn Atodlen 2 a bod gan yr Ymgynghorydd sgiliau technegol, arbenigedd ac adnoddau i'w darparu; a
- (B) Mae'r Ymgynghorydd wedi cyflwyno cynnig i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori; a
- (C) Gan ddibynnu ar y sylwadau a wnaed gan yr Ymgynghorydd yn B (uchod), mae'r Cyngor yn amcanu at benodi'r Ymgynghorydd i gyflawni a darparu'r Gwasanaethau Ymgynghori; a
- (D) Mae'r Ymgynghorydd yn cytuno i benodi unigolion penodol yn ei sefydliad i ddarparu Gwasanaethau Ymgynghori ac yn cytuno y bydd yr unigolion penodol yn Bersonél Allweddol o dan y Contract yma;
- (E) Mae'r Partïon, gyda'r bwriad o greu Contract cyfreithiol rwymedig, wedi cytuno ar delerau rhyngddynt ar gyfer darparu'r Gwasanaethau Ymgynghori fel y nodir hynny o dan y Contract yma; a
- (F) Y Contract yma yw'r cytundeb yn ei gyfanrwydd rhwng y Partïon mewn perthynas â thestun y Contract ac mae'n disodli unrhyw drafodaethau, sylwadau ac ymgynghoriadau blaenorol, boed hynny yn ysgrifenedig neu ar rhwng y partïon ac eithrio pan fo'r Partïon yn cytuno i beidio â chynnwys unrhyw atebolrwydd mewn perthynas â chamgynrychiolaeth drwy dwyll.

TUDALEN LOFNODI

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran Cyngor Sir	Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran yr Ymgynghorydd
Llofnodwr Awdurdodedig: Enw: Teitl: Dyddiad:	Llofnodwr Awdurdodedig: Enw: Teitl: Dyddiad:
Llofnodwr Awdurdodedig: Enw: Teitl: Dyddiad:	Tyst Drwy hyn rwyf yn tystio ac yn ardystio llofnod y Llofnodwr Awdurdodedig a enwir uchod Llofnod: Enw: Teitl: Dyddiad:

MAE'R PARTION YN CYTUNO:

1. DEHONGLIAD

Yn y Contract yma bydd gan y mynegiannau canlynol yr ystyron canlynol:

“Cymeradwyaeth”	cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor.
“Swyddog Awdurdodedig”	y Person sydd wedi ei benodi gan y Cyngor i weithredu ei hawliau a'i bwerau o dan y Contract yma, ac a all wneud penderfyniadau o dan y Contract (fel y nodir hynny yn Atodlen 4). Ni fydd hynny mewn unrhyw ffordd yn cyfyngu ar unrhyw hawliau neu rwymedigaethau eraill y Cyngor;
“Dileu Data Ardystiedig”	chwalu data ardystiedig drwy ddefnyddio gwasanaeth all ardystio bod data a ddelir ar systemau TG wedi cael ei ddileu, megis dull o ddefnyddio meddalwedd o drosysgrifo'r data sydd yn amcanu at chwalu'r holl ddata electronig perthnasol sydd ar yriant disg caled neu gyfrwng digidol arall;
“Newid yn y Gyfraith”	cyflwyno neu ddiddymu (heb ymddeddfu- neu gyfuno) yng Nghymru a Lloegr, unrhyw Ddeddf neu unrhyw ddiwygiad neu amrywiad i unrhyw Ddeddf, neu unrhyw ddyfarniad gan lys barn perthnasol sy'n newid cynsail rhwymedig yng Nghymru a Lloegr ar ôl y dyddiad y Contract hwn ym mhob achos.
“Dyddiad Cychwyn”	mae'n golygu [];
“Gwybodaeth Gyfrinachol”	unrhyw wybodaeth sydd wedi ei ddynodi'n gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall a yn ysgrifenedig neu ddylid ei ystyried yn gyfrinachol (ym mha ffordd bynnag y caiff ei fynegi neu ar ba bynnag gyfrwng y caiff ei storio) yn cynnwys gwybodaeth fyddai neu fyddai'n debygol o effeithio ar fuddiannau masnachol unrhyw berson, cyfrinachau'r diwydiant, Hawliau Eiddo Deallusol, gwybodaeth y naill Barti neu'r llall a'r holl Ddata Personol a'r data categori arbennig yng nghwmpas ystyr y Ddeddf Diogelu Data 2018.
“Contract”	yr Amodau hyn ac unrhyw Atodlenni a atodir iddynt fel y'u diwygir o dro i dro;
“Cyfnod y Contract”	Y cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn i'r Dyddiad Dod i Ben
“Pris y Contract”	y swm sydd i'w dalu gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd yn unol ag Atodlen 1;
“Rheolwr Ymgynghori”	y person a benodwyd gan yr Ymgynghorydd i weithredu ei hawliau a'i bwerau o dan y Contract yma (fel y nodir hynny yn Atodlen 4) a all wneud penderfyniadau o dan y Contract heb fod angen esgoli'r mater yn Sefydliad yr Ymgynghorydd. Ni fydd hynny mewn unrhyw ffordd yn cyfyngu ar unrhyw hawliau neu rwymedigaethau eraill yr Ymgynghorydd;

“Gwasanaethau Ymgynghori”	y gwasanaethau sydd i’w ddarparu i’r Cyngor gan yr Ymgynghorydd yn unol â’r Contract hwn fel y nodir hynny yn y Manyleb Gwasanaeth yn Atodlen 2 ac yn unol ag unrhyw gynig a gyflwynwyd gan yr Ymgynghorydd yn Atodlen 3;
“Rheolwr Data”	mae iddo’r ystyr a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data - ac at ddiben y Contract yma bydd y Rheolwr Data yn golygu’r Cyngor;
“Digwyddiad Colli Data”	unrhyw ddigwyddiad sy’n arwain at, neu all arwain at fynediad heb awdurdod at Ddata Personol a ddeler gan y Contractwr o dan y Contract hwn, a/neu golli gwirioneddol neu botensial a/neu ddifetha Data Personol fyddai’n achos o dorri’r Contract hwn;
“Prosesydd Data”	mae iddo’r ystyr a nodir yn y Ddeddf Diogelu Data - ac at ddiben y Contract yma bydd y Prosesydd Data yn golygu’r Ymgynghorydd;
“Y Ddeddf Diogelu Data”	Deddf Ddeddf Diogelu Data 1998 a (ii) Deddf Ddeddf Diogelu Data 2018.
“Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data”	asesiad gan y Cyngor o effaith y proses a ragwelir ar ddiogelwch Data Personol;
“Deddfwriaeth Diogelu Data”	y DPA, Cyfarwyddeb Diogelu Data’r UE 95/94/EC, Rheoliad Deddf Pwerau Ymchwilio 2000, Rheoliadau Telegyfathrebu (arferion Busnes Cyfreithlon) (Rhyng-gipio Cyfathrebiadau) 2000, Cyfarwyddeb Diogelu Data Cyfathrebiadau Electronig 2001/28/EC, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a’r gyfarwyddeb Gorfodi’r Gyfraith cyn belled â’i bod yn gysylltiedig â phrosesu data a’r holl deddfau a rheoliadau cymwys sy’n gysylltiedig â phrosesu data personol a chyfrinachedd, yn cynnwys pan fo’n gymwys y canllawiau a’r codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.
“Testun Data”	mae iddo’r ystyr a nodir yn Y Ddeddf Diogelu Data;
“Cais Mynediad Testun Data”	cais gan Destun Data yn unol â’r hawliau a roddir yn unol â’r DPA i gael mynediad at ei Ddata Personol.
“Gwiriadau DBS”	gwiriadau fydd yr Ymgynghorydd yn eu cyflawni yn unol â rheoliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
“DPA”	Y Ddeddf Diogelu Data;

“Anghydfod”	unrhyw anghydfod, gwahaniaethau neu gwestiwn o ddehongliad sy'n deillio o'r Contract hwn neu'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys unrhyw anghydfod, gwahaniaethau neu gwestiwn o ddehongliad mewn perthynas â'r Gwasanaethau neu unrhyw fater pan fo'r Contract hwn yn rhoi cyfarwyddyd i'r partion ddatrys unrhyw fater drwy gyfeirio at Gymal 12 Gweithdrefn Datrys Anghydfodau ac Atodlen 5;
“Dyddiad Dod i Ben”	mae'n golygu [];
“Digwyddiad Force Majeure”	<p>unrhyw ddigwyddiad sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Parti dan sylw ac na ellir ei briodoli i unrhyw weithred neu fethu â chymryd camau ataliol gan y Parti hwnnw, yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithred ryfel; • gweithred Duw; • gorchymyn y Llywodraeth; • terfysgoedd; • cythrwfl cyhoeddus; neu • unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth pa bynnag Barti yr effeithir arno ac na ellid fod wedi ei ragweld gyda rhagwelediad rhesymol;
“Ymarfer Da y Diwydiant”	safonau, arferion, dulliau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r Gyfraith a lefel y sgil a gofal, sylw, darbodusrwydd a rhagwelediad fyddai'n rhesymol ac arferol ddisgwyliedig gan berson neu gorff sgiliedig a phrofiadol sy'n ymwneud â gwaith cyffelybo dan yr un amgylchiadau neu amgylchiadau cyffelyb
“Gwybodaeth”	bydd iddo'r ystyr a geir yn adran 84 FOIA

<p>"Hawliau Eiddo Deallusol"</p>	<p>mae'n golygu patentau (yn cynnwys unrhyw hawliau mewn neu i (neu unrhyw hawliau mewn ac i), ddyfeisiau), nodau masnach, nodau gwasanaeth, logos, enwau masnachu ac enwau busnes (yn cynnwys hawliau mewn ewyllys da a atodir) arnynt); hawliau dylunio; hawliau mewn neu i (neu hawliau mewn ac i) enwau parthau rhynggrwyd a chyfeiriadau gwefannau; hawliau topograffi lled-ddargludol; hawlfraint (yn cynnwys hawlfraint i'r dyfodol); hawliau cronfeydd data; hawliau mewn ac i Wybodaeth Gyfrinachol (yn cynnwys cyfrinachau'r diwydiant); a'r holl hawliau Eiddo Deallusol eraill, mewn unrhyw achos sydd yn bodoli ar unrhyw adeg yn unrhyw le yn y byd (boed hynny yn gofrestredig neu'n anghofrestredig) ac unrhyw; (a) geisiadau ar y gweill neu hawliau i wneud cais i gofrestru unrhyw un o'r hawliau yma y gellir eu cofrestru mewn unrhyw wlad neu awdurdodaeth; a (b) hawliau cyffelyb neu gydweiddol i unrhyw rai o'r hawliau yma mewn unrhyw awdurdodaeth;</p>
<p>"Personél Allweddol"</p>	<p>yr unigolion hynny a nodir gan yr Ymgynghorydd yng Nghymal 18 ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori;</p>
<p>"Y Gyfraith"</p>	<p>unrhyw Ddeddf Seneddol cymwys, is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adran 21(1) Deddf Dehongli 1978, ymarfer yr uchelfraint frenhinol, hawl cymunedol y gellir ei gorfodi o fewn ystyr adran 2 Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, polisi rheoleiddio, canllawiau neu god diwydiant, dyfarniad llys barn perthnasol, neu gyfarwyddebau neu ofynion y mae'r Ymgynghorydd yn rhwymedig i gydymffurfio â nhw.</p>
<p>"Data Personol"</p>	<p>unrhyw ddata allai o bosibl ddatgelu hunaniaeth unigolyn penodol, neu y gellir ei defnyddio i wahaniaethu rhwng un unigolyn â'r llall ac y gellir ei defnyddio er mwyn dat-anhysbysu data anhysbys ac fel y diffinnir hynny yn y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data;</p>

<p>“Gweithred Waharddedig”</p>	<p>mae'r canlynol yn Weithredoedd Gwaharddedig:</p> <p>(a) cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall i unrhyw berson sy'n gweithio i neu'n sy'n gysylltiedig 'r Cyngor yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymell y person hwnnw i berfformio swyddogaeth neu weithgaredd berthnasol yn amhriodol; neu • wobrwyo'r person hwnnw am berfformio swyddogaeth neu weithgaredd berthnasol yn amhriodol; <p>(b) gofyn am, cytuno â neu dderbyn unrhyw fantais ariannol neu fantais arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel cymhelliant neu wobwr am berfformio swyddogaeth neu weithgaredd berthnasol yn amhriodol mewn perthynas â'r Contract Ymgynghori hwn;</p> <p>(c) cyflawni trosedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • o dan y Ddeddf Llwgwrwobrwyo 2010; • o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015; • o dan ddeddfwriaeth sy'n creu troseddau • sy'n ymwneud â gweithredoedd o dwyll; <p>o dan gyfraith gyffredin yn gysylltiedig â gweithredoedd twyllodrus mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw gontract arall gyda'r Cyngor; neu</p> <p>(d) dwyllo, ymdrechu i dwyllo neu gynllwynio i dwyllo'r Cyngor.</p> <p>(e) methu â chydymffurfio ag Adran146</p> <p>Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992; neu</p> <p>(f) fethu â thalu'r isafswm cyflog yn unol â Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 a'r rheoliadau o wnaed oddi tani.</p>
<p>“Camau Diogelu”</p>	<p>camau technegol a sefydliadol priodol allai gynnwys: ffugenwi ac amgodio Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a chydnerthedd systemau a gwasanaethau, sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad i Ddata Personol yn amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd camau o'r fath a fabwysiadwyd yn rheolaidd;</p>

“Cyrff Rheoleiddio”	yr adrannau llywodraeth hynny a'r endidau, pwyllgorau, ombwdsmyrn a chyrrff rheoleidiol, statudol ac arall y mae ganddynt, p'un a bod hynny o dan statud, rheolau, rheoliadau, codau ymarfer neu fel arall, yr hawl i reoleiddio, ymchwilio neu ddylanwadu ar y materion yr hmdrinir â nhw yn y Contract neu unrhyw faterion eraill y Cyngor
“Yswiriant Indemniad Proffesiynol Goferol”	polisi yswiriant indemniad proffesiynol a ddaw i rym pan fo'r yswiriedig yn stopio masnachu, a bydd unrhyw hawliad a wneir o dano yn gysylltiedig â gwaith a wneir cyn dechrau'r polisi;
“Manyleb y Gwasanaeth”	disgrifiad o'r Gwasanaethau Ymgynghori sydd yn ofynnol gan y Cyngor fel y nodir hynny yn Atodlen 2;
“Staff”	yr holl unigolion (boed yn wirfoddolwyr neu beidio), yn cynnwys Personél Allweddol, yn gyflogedig neu a ddefnyddir gan y Contractwr i berfformio ei rwymedigaethau o dan y Contract ynghyd ag asiantau, cyflenwyr ac isgontractwyr y Contractwr a chyflogeion neu asiantau Isgontractwyr a ddefnyddir ar gyfer perfformio ei rwymedigaethau o dan y Contract.
“Is-gontractwr”	contractwr sydd yn llofnodi Is-gontract gyda'r Ymgynghorydd er mwyn darparu rhai o'r Gwasanaethau Ymgynghori neu bob un ohonynt;
“Diwrnod Gwaith”	rhwng dydd Llun a Gwener yn gynwysedig, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddyddiau sydd yn wyliau banc neu wyliau cyhoeddus;

1. GWASANAETHAU YMGYNHGORI

- 1.1 Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r Ymgynghorydd i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori i'r Cyngor ac mae'r Ymgynghorydd yn cytuno i benodi'r Personél Allweddol i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori yn unol â'r telerau ac amodau

a nodir isod.

- 1.2 Bydd yr Ymgynghorydd yn sicrhau y bydd y Personél Allweddol a benodir i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori yn gwneud hynny yn unol ag Arferion Da y Diwydiant gan ddefnyddio profiad ac arbenigedd.
- 1.3 Bydd y Gwasanaethau Ymgynghori yn dechrau ar y Dyddiad Cychwyn a byddant yn cael eu cwblhau ar y Dyddiad Dod i Ben, (oni therfynir yn gynharach yn unol â'r Contract neu fel arall yn unol â'r gyfraith neu degwch).
- 1.4 Wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori bydd yr Ymgynghorydd yn cydymffurfio ag unrhyw ddyddiadau neu derfynau amser a bennir gan y Swyddog Awdurdodedig.
- 1.5 Mae'r Partïon yn cytuni bod amser yn hanfodol wrth gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori.
- 1.6 Bydd yr Ymgynghorydd ond yn cael caniatâd i aseinio'r Contract yma neu unrhyw ran ohono neu i is-gontractio darpariaeth y Gwasanaethau Ymgynghori neu unrhyw ran ohoni gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Swyddog Awdurdodedig, ac os rhoddir caniatâd i isgontractio, bydd yr Ymgynghorydd yn sicrhau bod yr holl rwymedigaethau o dan y Contract yma yn cael eu nodi mewn is-gontract gydag unrhyw is-gontractwr.
- 1.7 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod bod y Cyngor wedi dibynnu ar enw da, arbenigedd a phrofiad yr Ymgynghorydd, ac mae'r Ymgynghorydd yn gwarantu y bydd y Gwasanaethau Ymgynghori yn cael eu darparu:
 - i) mewn modd briodol, sgiliedig a gweithgar;
 - ii) gan nifer digonol o bersonél hyfforddedig a phrofiadol sydd â chymwysterau priodol, gyda safon uchel o sgil, gofal a diwydrwydd dyledus ac yn unol ag Arferion Da'r Diwydiant;
 - iii) yn unol â'r Contract ac unrhyw ddisgrifiadau a ddarparwyd gan yr Ymgynghorydd;
 - iv) i safon sydd o fewn rheswm yn bodloni'r Swyddog Awdurdodedig; a
 - v) mewn modd fel bod yr Ymgynghorydd yn cymryd yr holl ragofalon rhesymol er mwyn diogelu eiddo'r Cyngor a ymddiriedir i ofal yr Ymgynghorydd.
- 1.8 Mae'r Ymgynghorydd yn gwarantu i'r Cyngor, i'r graddau y bydd unrhyw nwyddau, offer neu ddeunyddiau traul yn cael eu darparu fel rhan o'r Gwasanaethau Ymgynghori, bydd y nwyddau:
 - i) heb ddiffygion o ran dyluniad, deunydd a chreffftwaith; a
 - ii) byddant wedi eu ffurfio, eu dylunio, eu cynhyrchu, eu gorffen a'u pecynnu fel eu bod yn ddiogel ac na fyddant yn achosi risg i iechyd.

1.9 Heb effeithio ar hawliau'r Cyngor i derfynu o dan Gymal 3 (Terfynu), os na fydd unrhyw rai o'r Gwasanaethau Ymgynghori a ddarperir yn unol â'r Contract, bydd gan y Cyngor hawl i:

- i) ofyn i'r Ymgynghorydd gydweithredu ag ymgynghorydd newydd os bydd y Cyngor yn penodi ymgynghorydd arall, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, ac mewn unrhyw achos o fewn un deg pedwar[14] diwrnod o dderbyn cais i wneud hynny; neu
- ii) ofyn am daliad am gyfran o Bris y Contract sydd wedi ei dalu ynghyd â thaliad am unrhyw wariant ychwanegol sydd y tu hwnt i Bris y Contract a ysgwyddwyd o fewn rheswm gan y Cyngor yn ei ddisgresiwn absoliwt wrth gaffael yr ymgynghorydd arall, nu bydd gan y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn absoliwt, hawl i ddal taliad o Bris y Contract yn ôl neu gyfran ohono.

1.10 Bydd yr Ymgynghorydd yn cynnal cyfarfodydd gyda'r Swyddog Awdurdodedig mor aml ag sydd ei angen o fewn rheswm gan y Swyddog Awdurdodedig yn ystod Cyfnod y Contract fel sydd yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y Gwasanaethau Ymgynghori yn cael eu cwblhau yn dderbyniol ac amserol ac y byd bob amser yn gweithredu'n ddidwyll, ac y bydd yn adrodd i'r Swyddog Awdurdodedig yn ysgrifenedig ar gynnydd o ran cwblhau'r Gwasanaethau Ymgynghori ddim yn llai aml nag unwaith y mis.

1.11 Bydd yr Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw anawsterau allai godi wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori.

1.12 Ni fydd yr Ymgynghorydd yn gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd yn erbyn unrhyw unigolyn mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau Ymgynghori.

1.13 Bydd yr Ymgynghorydd yn penodi unigolyn (a nodir yn Atodlen 4) i weithredu ei hawliau a'i bwerau o dan y Contract yma. Bydd y Rheolwr Contractau yn berson uwch yn sefydliad yr Ymgynghorydd ac yn gallu gwneud penderfyniadau o dan y Contract heb yr angen i esgoli'r mater o fewn y busnes.

1.14 Bydd y Swyddog Awdurdodedig a'r Rheolwr Ymgynghori yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, o leiaf unwaith y mis am y tri [3] mis cyntaf ac yn chwarterol ar ôl hynny (oni chytunir fel arall) gyda'r diben o adolygu'r Gwasanaethau Ymgynghori a ddarperir gan yr Ymgynghorydd a sut mae'r Contract yn cael ei roi ar waith. Bydd cyfarfodydd o'r fath yn canfod ffyrdd o wella'r Gwasanaethau Ymgynghori a ddarperir ac yn arenwi materion o dan y Contract ac unrhyw gamau unioni fydd eu hangen o ganlyniad. Ni chaiff unrhyw Barti godi am gostau a ysgwyddir am fynychu'r cyfarfodydd yma.

1.15 Pan hysbysir yr Ymgynghorydd bod hynny'n berthnasol i'r Gwasanaethau Ymgynghori, bydd yr Ymgynghorydd yn ymrwymedig i gydymffurfio â, a bydd yn sicrhau y bydd y Staff yn cydymffurfio â chyfryw bolisiau perthnasol y Cyngor yn ychwanegol at unrhyw bolisiau sydd ar gael o dro i dro ar wefan y Cyngor allai fod yn berthnasol i:

- a) bolisiau cydraddoldeb, gwerthoedd cymdeithasol ac amrywiaeth;

- b) polisïau iechyd a diogelwch;
- c) polisïau diogelu;
- d) polisïau cynaliadwyedd;
- e) rheolau diogelwch gwybodaeth;
- f) chwythu'r chwiban a/neu bolisïau adrodd yn gyfrinachol;
- g) yr holl reolau safle sy'n berthnasol â chyflawni rhwymedigaethau'r Contractwr o ran cyflawni'r Gwasanaethau;
- h) Caethwasiaeth Fodern;
- i) rheolau sy'n atal llwgrwobrwyo gan unigolion sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn atal llwgrwobrwyo gan unigolion sy'n gysylltiedig â Chontractwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau i'r Cyngor;
- j) Cod Cyflogaeth Moesegol.

1.16 Bydd yr Ymgynghorydd:

- a) yn sicrhau na fydd, ac yn sicrhau na fydd y Staff, mewn perthynas â'r Contract Ymgynghori hwn, yn cyflawni Gweithred Waharddedig; ac
- b) yn gwarantu, cynrychioli ac yn sicrhau nad yw'n ymwybodol bod unrhyw fantais ariannol neu fel arall yn cael ei rhoi i unrhyw berson sy'n gweithio i neu sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, neu bod cytundeb wedi cael eu wneud i'r un diben, mewn cysylltiad â gweithredu'r Contract hwn, ac eithrio unrhyw drefniant y datgelwyd manylion llawn amdano yn ysgrifenedig i'r Cyngor cyn gweithredu'r Contract Ymgynghori hwn

os amheuir bod achos o dorri'r Cymal 1.16 hwn wedi digwydd neu os bydd hynny'n hysbys, mae'n rhaid i'r Ymgynghorydd hysbysu'r Cyngor yn syth

1.17 Bydd gan yr Ymgynghorydd bolisi neu bolisïau (fydd yn cael ei ddatgelu i'r Cyngor ar gais) er mwyn atal unrhyw Staff rhag cyflawni Gweithred Waharddedig a bydd yn ei orfodi pan fo'n briodol.

1.18 Mae'r Ymgynghorydd yn gwarantu nad yw wedi talu comisiwn nac wedi cytuno i dalu comisiwn i unrhyw gyflogai neu gynrychiolydd y Cyngor gan yr Ymgynghorydd neu ar ran yr Ymgynghorydd.

1.19 Os bydd yr Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor ei fod yn amau bod achos o dorri'r Cymal 1.15 yma wedi digwydd neu os bydd hynny'n hysbys iddo, mae'n rhaid i'r Ymgynghorydd ymateb yn brydlon i ymholiadau'r Cyngor, cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad, a chaniatáu i'r Cyngor archwilio llyfrau, cofnodion ac unrhyw ddogfennau arall. Bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau am chwe (6) blynedd yn dilyn terfynu neu ddiweddu'r Contract hwn.

1.20 Bydd yr Ymgynghorydd, os gofynnir iddo wneud hynny, yn rhoi unrhyw gymorth rhesymol i'r Cyngor, ar gost rhesymol y Cyngor, er mwyn galluogi'r Cyngor i gynnal unrhyw weithgaredd sy'n ofynnol gan unrhyw Gorff Rheoleiddio, Llywodraeth neu Asiantaeth berthnasol mewn unrhyw awdurdodaeth perthnasol at ddiben cydymffurfio â'r Ddeddf Llwgwrwbrwyo 2010. ac

2. Pris y Contract

2.1 Wrth ystyried perfformiad y Gwasanaethau Ymgynghori bydd y Cyngor yn talu i'r Ymgynghorydd y Pris y Contract a nodir yn Atodlen 1, yn gyfnodol fel a nodir ar ôl i'r Ymgynghorydd ddarparu anfoneb.

2.2 Oni ddarperir yn bendant yn Atodlen 1, bydd Pris y Contract yn cynnwys yr holl dreuliau a ysgwyddir gan yr Ymgynghorydd ac ni fydd gan yr Ymgynghorydd hawl i hawlio unrhyw dreuliau gan y Cyngor.

3. TERFYNU

3.1 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Force Majeure, gall y Cyngor derfynu'r Contract yma ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Ymgynghorydd ar unrhyw adeg os:

- a) daw'r Ymgynghorydd yn fethdalwr, yn ansolfedd, yn llunio unrhyw gyfansoddiad gyda'i gredydwr; neu
- b) mae'r Ymgynghorydd yn cael ei ganfod yn euog o gyflawni trosedd sy'n berthnasol i'r Contract; neu
- c) mae'r Ymgynghorydd yn rhoi'r gorau neu yn bygwth rhoi'r gorau i'w fusnes; neu
- d) mae yna risg neu credir o ddifri y bydd enw da'r Cyngor yn cael ei niweidio o ganlyniad i barhau â'r Contract; neu
- e) mae'r Ymgynghorydd yn torri unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract yma y gellir ei unioni ac ni unionwyd mewn modd sydd yn bodloni'r Cyngor o fewn pedwar diwrnod ar ddeg [14], neu unrhyw gyfnos rhesymol o'r fath allai'r Cyngor ei nodi ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig sydd yn nodi'r tramgwydd ac yn gofyn i'r Ymgynghorydd ei unioni; neu
- f) mae'r Ymgynghorydd wedi torri unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Contract hwn mewn modd sylweddol, ac na ellir unioni hynny; neu
- g) mae'r Ymgynghorydd yn cyflawni mân dramgwyddau parhaus mewn perthynas â'r Contract yma (p'un a ydynt yn cael eu hunioni neu beidio); neu
- h) mae'r Ymgynghorydd yn ymgysylltu ag unrhyw weithgaredd, arferion neu ymddygiad fyddai'n drosedd o dan Ddeddf Llwgwrwbrwyo 2010; neu
- i) mae'r Ymgynghorydd yn methu â chydymffurfio â pholisïau gwrth lwgr wobrwyo a gwrth lygredigaeth y Cyngor fel yr hysbysir am hynny i'r Ymgynghorydd o dro i dro; neu

j) bernir bod yr Ymgynghorydd yn torri'r Ddeddf Diogelu Data, mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau Ymgynghori; neu

k) mae'r Ymgynghorydd yn methu â chynnal cofrestrriad â Chorff Rheoleiddio neu mae aelodaeth yr Ymgynghorydd gyda'r Corff Rheoleiddio yn cael ei ddiddymu gyda neu heb apêl yn erbyn diddymiad o'r fath.

l)

3.2 Mae'r Cyngor wedi dibynnu ar y cynigion a ddarparwyd gan yr Ymgynghorydd a bydd unrhyw gamgynrychiolaeth perthnasol ynddynt yn rhoi hawl i'r Cyngor ddiddymu neu derfynu'r Contract yma fel un o'i opsiynau drwy roi rhybudd ysgrifenedig a ddaw i rym ar unwaith.

3.3 Gall y Cyngor derfynu'r Contract yma ar unwaith os bydd yr Ymgynghorydd ar adeg dyfarnu'r Contract wedi cael ei wahardd yn unol â Rheoliad 57 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

3.4 Gall y Cyngor derfynu'r Contract yma ar unwaith os bydd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd yn tybio na ddylid fod wedi dyfarnu'r Contract i'r Ymgynghorydd yn dilyn achos difrifol o dorri'r rhwymedigaethau o dan Gytundebau'r UE a'r Gyfarwyddeb Contractau Cyhoeddus.

3.5 Gall y Cyngor derfynu'r Contract yma os dyfernir bod unrhyw amrywiad yn amrywiad sylweddol yn unol ag ystyr Rheoliad 72(8) Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, neu os tybir bod y Contract yn torri unrhyw ddarpariaeth arall Rheoliad 72 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

3.6 Gall y Cyngor derfynu'r Contract yma ar unrhyw adeg heb atebolrwydd i'r Ymgynghorydd drwy roi dim llai na un [1] mis o rybudd ysgrifenedig i'r Ymgynghorydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cyngor yn talu i'r Ymgynghorydd yr holl arian fydd yn briodol ddyledus bryd hynny i'r Ymgynghorydd am y Gwasanaethau Ymgynghori a gyflawnwyd hyd at y dyddiad y daw y terfyniad i rym o dan delerau'r Contract yma. Ni fydd gan yr Ymgynghorydd hawl i unrhyw iawndal ar ôl terfynu yn unol â'r Cymal 3.6 yma. Bydd darpariaethau Cymal 3.7 yn gymwys.

3.7 Os bydd y Cyngor yn dewis derfynu'r Contract yma ar unrhyw sail a nodir yn y Cymal 3 yma gall wneud hynny yn gyfan gwbl neu yn rhannol a gall roi cyfnod rhybudd yn hytrach na therfynu'r Contract ar unwaith.

4. CANLYNIADAU TERFYNNU A DDOD I BEN

4.1 Pan fo'r Contract yma yn cael ei derfynu oherwydd diffyg ar ran yr Ymgynghorydd o dan is gymalau 3.1 i 3.5 ni fydd unrhyw daliadau pellach fydd yn ddyledus i'r Ymgynghorydd yn cael eu talu gan y Cyngor nes bod y Cyngor wedi sefydlu beth

fydd costau terfynol gweud unrhyw drefniadau amgen fel y darperir am hynny yn y Cymal 4 yma.

4.2 Os bydd y Contract yn cael ei derfynu yn gyfan gwbl neu yn rhannol, bydd y Cyngor:

- a) yn atebol i dalu i'r Ymgynghorydd yr elfennau hynny o Bris y Contract, os o gwbl, a ysgwyddwyd yn briodol yn unol â'r Contract neu'r rhan o'r Contract yr effeithiwyd arno hyd at yr adeg terfynu, a hynny yn unig; a/neu
- b) bydd ganddo yr hawl i adennill gan yr Ymgynghorydd (neu ei gynrychiolwyr yn ôl y digwydd) unrhyw elfennau o Bris y Contract, os o gwbl, a dalwyd ymlaen llaw am y Gwasanaethau Ymgynghori nad ydynt wedi'u cyflenwi ar ddyddiad y terfynu; a/neu
- c) gall ddiwynnu o unrhyw swm neu symiau fyddai wedi bod yn ddyledus gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd o dan y Contract yma neu unrhyw Contract arall, neu adennill gan yr Ymgynghorydd, boed hynny fel dyled, unrhyw swm mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod a ysgwyddwyd a liniarwyd yn rhesymol, y gellir ei orfodi'r gyfreithiol, i'r Cyngor o ganlyniad i neu sydd yn deilli o derfynu'r Contract yma. Bydd unrhyw golled neu niwed o'r fath yn cynnwys cost resymol i'r Cyngor am yr amser a dreuliwyd gan ei swyddogion yn derfynu'r Contract ac wrth wneud trefniadau eraill ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori neu unrhyw ran ohonynt; a/neu
- d) petai unrhyw swm o arian sy'n ddyledus gan yr Ymgynghorydd i'r Cyngor yn fwy nag unrhyw swm o arian sy'n ddyledus gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd o dan y Contract hwn, bydd gan y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, yr hawl i dynnu'r symiau hynny o unrhyw Contract yn y dyfodol y gall yr Ymgynghorydd ymgymryd ag ef gyda'r Cyngor neu adennill y ddyled drwy'r llysoedd sifil.

4.3 Pan derfynir y Contract am unrhyw reswm, ac eithrio fel y darperir am hynny yn y Contract yma ac ar gyfer unrhyw hawliau neu rwymedigaethau a gronwyd cyn terfynu, ni fydd gan y naill Barti unrhyw rwymedigaeth pellach i'r llall o dan y Contract.

4.4 Os bydd y Cyngor yn derfynu'r Contract yma (neu'n derfynu darpariaeth unrhyw ran o'r Contract yma) bydd gan y Cyngor hawl i chwilio am ymgynghorydd arall er mwyn darparu'r Gwasanaethau Ymgynghori neu unrhyw ran ohonynt.

4.5 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i derfynu'r Contract, bydd yr Ymgynghorydd yn parhau i gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori yn unol â'r Contract yma a bydd yn sicrhau na fydd yna unrhyw ddirywiad yn safon y Gwasanaethau Ymgynghori tan y dyddiad terfynu.

4.6 Pan derfyni'r y Contract yma neu pan ddaw i ben, bydd yr Ymgynghorydd (neu ei gynrychiolydd pan fo hynny'n gymwys) yn:

a) o fewn tri deg [30] diwrnod o derfynu neu ddod i ben, yn ad-dalu i'r Cyngor unrhyw swm fyddid wedi ei dalu i'r Ymgynghorydd ymlaen llaw mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ymgynghori na ddarparwyd;

b) o fewn pum [5] diwrnod o'r terfynu'r Contract yma neu ar ôl iddo ddod i ben, bydd yn trosglwyddo i'r Cyngor (neu unrhyw ymgynghorydd newydd, fel bo'r achos) unrhyw ffeiliau achos agored;

c) o fewn tri deg [30] diwrnod o derfynu'r Contract yma neu ar ôl iddo ddod i ben, yn dychwelyd i'r Cyngor unrhyw ddata (yn cynnwys Data Personol) a Gwybodaeth Gyfrinachol sydd yn eiddo i'r Cyngor sydd ym meddiant, dan rym neu reolaeth yr Ymgynghorydd, ac yna bydd yr Ymgynghorydd drwy broses Dileu Data Ardystiedig yn dileu unrhyw wybodaeth o'r fath a storir ar unrhyw fformat, a hynny yn anadferadwy; ac

d) (os bydd yn berthnasol) o fewn tri deg [30] diwrnod o derfynu'r Contract yma neu ar ôl iddo ddod i ben, bydd yn trefnu i drosglwyddo i'r Cyngor (neu unrhyw ymgynghorydd newydd, fel bo'r achos) weddill unrhyw drwydded sydd ei angen er mwyn parhau i gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori.

4.7 Bydd yr Ymgynghorydd yn gwneud pob ymdrech resymol er mwyn hwyluso trosglwyddo cyfrifoldeb am y Gwasanaethau Ymgynghori i'r Cyngor yn esmwyth (neu unrhyw ymgynghorydd newydd, fel bo'r achos) ac ni fydd yr Ymgynghorydd yn gweithredu ar unrhyw adeg yn ystod Cyfnod y Contract nac ar ôl hynny mewn ffordd a gynllunnir neu a fwriedir, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i effeithio neu i amharu ar drosglwyddiad o'r fath, neu i wneud hynny yn fwy anodd.

4.8 Ni fydd yr Ymgynghorydd yn codi tâl ar y Cyngor (na'r ymgynghorydd newydd, fel bo'r achos) am unrhyw wariant a ysgwyddwyd ym mha bynnag fodd wrth gyflawni'r trefniadau a nodir yng Nghymal 4.6 neu Gymal 4.7.

5. GWYBODAETH GYFRINACHOL

5.1 Mae'r Ymgynghorydd yn cytuno bob amser i drin Gwybodaeth Gyfrinachol fel gwybodaeth sydd yn gyfrinachol i'r Cyngor. Ni chaiff yr Ymgynghorydd ar unrhyw adeg nac am unrhyw reswm ddatgelu neu ganiatáu datgelu i unrhyw berson unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol, ac ni chaiff yr Ymgynghorydd ddefnyddio neu ganiatáu defnyddio mewn unrhyw ffordd arall unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol gan unrhyw berson.

5.2 Bydd yr Ymgynghorydd yn llofnodi cytundeb peidio datgelu os bydd y Cyngor yn gofyn am hynny.

6. DIOGELU DATA

6.1 Bydd yr Ymgynghorydd yn cydymffurfio bob amser â Deddfwriaeth Diogelu Data a'i rwymedigaethau mewn perthynas â Data Personol sy'n eiddo i'r Prosesydd Data ac ni fydd yn perfformio ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn mewn unrhyw fodd fyddai'n achosi i'r Cyngor dorri ei rwymedigaethau o dan y DPA.

6.2 Bydd Atodlen 5 yn gymwys.

6.3 Gellir dyfarnu bod methiant ar ran yr Ymgynghorydd i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y Cymal 6 hwn ac Atodlen 5 yn achos o dorri'r Contract.

7. RHYDDID GWYBODAETH

7.1 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod bod y Cyngor yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("FOIA") a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 ("EIR") a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithredu gyda'r Cyngor (ar gost yr Ymgynghorydd) er mwyn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion datgelu gwybodaeth yma.

7.2 Bydd yr Ymgynghorydd yn:

- i) trosglwyddo unrhyw gais am Wybodaeth i'r Cyngor cyn gynted â bod hynny'n ymarferol ar ôl derbyn y cais, ac mewn unrhyw achos o fewn pm [5] diwrnod gwaith;
- ii) rhoi copi i'r Cyngor o'r holl Wybodaeth y ffurf y gofynnir amdano gan y Cyngor o fewn pum (5) diwrnod gwaith (neu unrhyw gyfnod arall a nodir gan y Cyngor) i dderbyn cais am y wybodaeth honno; a
- iii) darparu'r holl gymorth fel y gofynnir amdano o fewn rheswm gan y Cyngor er mwyn galluogi'r Awdurdod i ymateb i Gais am Wybodaeth o fewn yr amser cydymffurfio a nodir yn Adran 10 FOIA neu Reoliad 5 EIR.

7.3 Bydd y Cyngor yn gyfrifol am benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn llwyr a yw'r wybodaeth:

i) wedi ei hesemptio rhag datgeliad yn unol â darpariaethau FOIA neu reoliadau EIR; neu

i) i gael ei datgelu fel ymateb i gais am Wybodaeth.

7.4 Ni fydd yr Ymgynghorydd yn ymateb yn uniongyrchol i gais am y Wybodaeth oni bai y caiff awdurdod pendant gan y Cyngor i wneud hynny.

7.5 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod y gall y Cyngor fod yn rhwymedig o dan yr FOIA neu'r EIR i ddatgelu'r Wybodaeth:

i) heb ymgynghori â'r Ymgynghorydd; neu

ii) ar ôl ymgynghori â'r Ymgynghorydd ac ystyried ei safbwyntiau.

7.6 Mae'r Ymgynghorydd yn cydnabod mai gwerth dangosol yn unig sydd i unrhyw Drefnlenni a ddarperir ganddo sy'n amlinellu wybodaeth y mae'r Ymgynghorydd yn ystyried sydd yn gyfrinachol, ac y gall yr Awdurdod, er hynny, fod yn rhwymedig i ddatgelu Gwybodaeth Gyfrinachol yn unol â Chymal 7.

8. Eiddo Deallusol

- 8.1 Mae'r Ymgynghorydd yn gwarantu na fydd, wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori yn torri hawlfraint, hawl dylunio, patent neu unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol eraill unrhyw drydydd parti ac mae'n indemnio'r Cyngor rhag unrhyw hawliad y gellir ei gorfodi'n gyfreithiol a wneir yn ei erbyn fydd yn deillio o unrhyw achos o dorri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol sydd yn eiddo i unrhyw drydydd parti.
- 8.2 Bydd yr hawlfraint ac unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol eraill mewn unrhyw ddeunyddiau a gynhyrchir tra'n ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori neu o ganlyniad i hynny, yn eiddo i'r Cyngor, a mae'r Cyngor yn rhoi i'r Ymgynghorydd drwydded gwastadol anghyfyngedig i gopïo a defnyddio'r cyfryw ddeunyddiau ar gyfer ei ddibenion cyfeirio a'i gofnodion ei hun.
- 8.3 Bydd yr Ymgynghorydd yn indemnio'r Cyngor rhag unrhyw hawliad y gellir ei orfodi'n gyfreithiol a ddygir yn erbyn y Cyngor sydd yn honni y torrwyd Hawliau Eiddo Deallusol sydd yn eiddo i drydydd Parti, drwy ddefnyddio, gweithredu neu gymhwyso'r Gwasanaethau Ymgynghori, a bydd yr Ymgynghorydd yn talu'r holl gostau a iawndaliadau a ddyfernir neu y cytunir arnynt wrth setlo unrhyw hawliad o'r fath yn erbyn y Cyngor, cyn belled bod y Cyngor yn:
- rhoi rhybudd ysgrifenedig prydlon i'r Ymgynghorydd am unrhyw hawliad o'r fath; ac
 - yn ymgynghori â'r Ymgynghorydd er mwyn derbyn cymorth gan yr Ymgynghorydd mewn perthynas ag amddiffyn unrhyw hawliad o'r fath.
- 8.4 Os, ym marn resymol yr Ymgynghorydd, (ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Awdurdodedig) y bydd, neu y gall defnyddio'r Gwasanaethau Ymgynghori fod yn destun honiad o dorri Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti, bydd yr Ymgynghorydd naill ai yn:
- i) caffael yr hawl i barhau i ddefnyddio'r Hawliau Eiddo Deallusol yr honnwyd y'u torrwyd yn y Gwasanaethau Ymgynghori; neu
- ii) amnewid neu addasu'r Gwasanaethau Ymgynghori fel nad ydynt yn tramgwyddo, cyn belled nad yw unrhyw amnewidiad neu addasiad o'r fath yn golygu bod y Gwasanaethau Ymgynghori yn methu â chydymffurfio â Manyleb y Gwasanaeth, oni chytunir fel arall.
- 8.5 Os na fydd y camau unioni a nodir yn is-gymal 8.4 (ym marn resymol yr Ymgynghorydd) ar gael, gall y Cyngor, heb effeithio ar unrhyw un o hawliau neu gamau unioni eraill y Cyngor o dan y Contract, derfynu'r Contract yn gyfan gwbl neu yn rhannol ar unwaith.

9. STATWS AC ATEBOLRWYDD TRETH

- 9.1 Mae'r Partïon yn datgan nad yw'r Ymgynghorydd yn gyflogedig gan y Cyngor ac na fydd ganddo hawl i gael unrhyw bensiwn, bonws nac unrhyw fudd arall (ar wahân i Bris y Contract sydd yn daladwy o dan y Contract yma) gan y Contract.
- 9.2 Bydd yr Ymgynghorydd yn gyfrifol am bob atebolrwydd Treth Incwm ac atebolrwydd Yswiriant Cenedlaethol neu gyfraniadau cyffelyb mewn perthynas â thaliadau gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd a wneir o dan y Contract yma.
- 9.3 Bydd yr Ymgynghorydd yn indemnio'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw hawliau y gellir ei orfodi'n gyfreithiol y gall yr awdurdodau perthnasol eu gwneud yn erbyn y Cyngor mewn perthynas â Threth Incwm neu Yswiriant Cenedlaethol neu gyfraniadau cyffelyb mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ymgynghori.

10. CYFYNGIADAU ATEBOLRWYDD

10.1 Yn ddarostyngedig i Gymal 10.2, bydd yr Ymgynghorydd yn atebol am a bydd yn indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw gost, atebolrwydd, colled, hawliad neu achos fydd yn deillio mewn perthynas ag unrhyw achos o esgeulustod, gwall, torri contract neu hepgoriad fydd yn deillio o'r Gwasanaethau Ymgynghori a bydd cyfanswm atebolrwydd yr Ymgynghorydd i'r Cyngor fydd yn deillio o neu mewn perthynas â'r Contract yma yn ddi-gyfyngiad.

10.2 Ni fydd y naill Barti yn atebol i'r llall am unrhyw golled anuniongyrchol neu ganlyniadol fydd yn deillio naill ai mewn contract, neu oherwydd esgeulustod, neu mewn unrhyw gyfraith camweddau mewn cysylltiad â pherfformiad neu ddiffyg perfformiad ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb yma, ac eithrio i'r graddau na cheir eithrio na chyfyngu ar y cyfryw atebolrwydd o dan y gyfraith.

10.3 Ni fydd y Cymal 10 yma yn gwahardd nac yn cyfyngu ar atebolrwydd y naill Barti na'r llall am dwyll neu gamgynrychiolaeth.

11. INDEMNIAID AC YSWIRIANT

11.1 Bydd yr Ymgynghorydd yn sicrhau ac yn cynnal yr yswiriannau canlynol am Gyfnod y Contract:

- i) yswiriant atebolrwydd cyflogwr ar gyfer swm mad yw'n llai na deng miliwn o bunnau £10,000.000 am bob digwyddiad, a bydd yr Ymgynghorydd yn cadw'r yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr tan y Dyddiad Dod i Ben;
- ii) yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus mewn perthynas ag atebolrwydd am farwolaeth neu anaf corfforol i unrhyw unigolyn, ne gollu neu ddifrod i eiddo ne unrhyw golled neu ddifrod arall fydd yn deillio o berfformio neu geisio neu honni perfformio neu ddiffyg perfformio'r Contract ar gyfer swm nad yw'n llai na deng miliwn o bunnau £10,000.000 am bob digwyddiad, a bydd yr Ymgynghorydd yn cadw'r yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr tan y Dyddiad Dod i Ben;
- i) yswiriant indemniad proffesiynol ar gyfer swm sydd yn arferol ar gyfer ymgynghorydd yn y busnes y mae'r Ymgynghorydd ynddo, ond sydd ddim mewn unrhyw achos yn llai na pum miliwn o bunnau £5,000,000.

- 11.2 Bydd yr Ymgynghorydd yn cynnal yswiriant indemniad Proffesiynol am chwe [6] blynedd ar ôl iddo i'r Contract ddod i ben (os bydd y Contract yma wedi ei lofnodi) neu ddeuddeg [12] mlynedd ar ôl iddo ddod i ben (os bydd y Contract yma wedi ei selio fel gweithred) ac os bydd yr Ymgynghorydd yn rhoi'r gorau i'w weithrediadau yn ystod y cyfnod estynedig yma o atebolrwydd bydd yr Ymgynghorydd yn sicrhau bod unrhyw warchodaeth rhag unrhyw hawliad y gellir ei ddwyn gan y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy Yswiriant Indemniad Proffesiynol Goferol, a bydd yn rhwymedig, os gofynnir iddo wneud hynny gan y Cyngor, i brofi yn flynyddol i'r Cyngor bod y ddarpariaeth yswiriant yn dal i fodoli.
- 11.3 Bydd yr Ymgynghorydd yn darparu tystiolaeth o'r yswiriannau y cyfeirir atynt yng Nghymal 11.1 cyn dechrau darparu'r Gwasanaethau Ymgynghori ac ar unrhyw adeg arall pan fo'r Swyddog Awdurdodedig yn gofyn am hynny o fewn rheswm.
- 11.4 Os canfyddir bod yr Ymgynghorydd yn torri'r Cymal 11 yma, gall y Cyngor benderfynu unrhyw bremymau sydd yn angenrheidiol er mwyn cadw'r yswiriannau angenrheidiol mewn grym, a gall adennill y cyfryw symiau gan yr Ymgynghorydd ar ffurf dynodiadau o symiau sydd yn daladwy gan y Cyngor i'r Ymgynghorydd o dan y Contract neu drwy adennill hynny fel dyled i'r Cyngor gan yr Ymgynghorydd.

12. DATRYS ANGHYDFODAU

- 12.1 Os bydd unrhyw Anghydfod yn codi o, neu yn gysylltiedig â'r Contract, bydd y Partion yn cydymffurfio â'r weithdrefn datrys anghydfodau a nodir yn Atodlen 6.
- 12.3 Nid fydd dim yn y Cymal 12 yma yn rhwystro hawl Parti i gychwyn achos fyddai fel arall yn golygu y byddai oedi yn effeithio arno.

13. CYFLE CYFARTAL

Wrth gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori, bydd yr Ymgynghorydd yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 fel petai'r Ymgynghorydd yn gorff cyhoeddus, a bydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau sydd yn gysylltiedig â chyfle cyfartal, yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

14. GWERTH CYMDEITHASOL

Bydd yn ofynnol i'r Ymgynghorydd i gyflawni elfennau gwerth cymdeithasol yn unol â Deddf Lles Cymru 2015 a nodwyd yn eu cynnig, neu bydd yn cytuno ag ymdrechion rhesymol y Swyddog Awdurdodedig i sicrhau ei fod, drwy ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori, yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Sir y Fflint/Sir Ddinbych.

15. CADW COFNODION A MONITRO

- 15.1 Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas â'i ofynion cadw cofnodion a monitro yn cynnwys archwilio a gofynion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, bydd yr Ymgynghorydd yn cadw ac yn cynnal am chwe [6] blynedd (neu unrhyw gyfnod hirach sydd yn ofynnol yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth benodol) ar ôl cwblhau'r Contract, gofnodion llawn a chywir mewn perthynas â'r Contract a'r Gwasanaethau Ymgynghori a gyflawnwyd o dano, pob gwariant a ad-delir gan y Cyngor, a phob taliad a wneir gan y Cyngor. Bydd yr Ymgynghorydd ar gais yn

caniatáu i'r Cyngor neu i gynrychiolwyr y Cyngor fynediad i'r (a chopïau o'r) cofnodion hynny fel bydd yn ofynnol gan y Cyngor mewn perthynas â'r Contract.

- 15.2 Bydd yr Ymgynghorydd ar ei gost ei hun yn darparu unrhyw wybodaeth fydd efallai yn ofynnol gan y Cyngor er mwyn cydymffurfio â gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer monitro'r Contract.

16. DIGWYDDIAD FORCE MAJEURE

- 16.1 Bydd gan y Ymgynghorydd gynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y Contract yma os bydd hynny mewn unrhyw ffordd yn bosibl, hyd yn oed yn ystod Digwyddiad Force Majeure.
- 16.2 Bydd yr Ymgynghorydd yn darparu copïau o'i gynlluniau wrth gefn i'r Swyddog Awdurdodedig ar gais.
- 16.3 Ni fydd y naill Barti na'r llall yn atebol am fethu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Contract os bydd methiant o'r fath yn ganlyniad i Ddigwyddiad Force Majeure a'u bod wedi hysbysu'r Parti arall yn ysgrifenedig o fewn dau [2] ddiwrnod o'r Digwyddiad Force Majeure.
- 16.4 Ni fydd gweithredu uniongyrchol gan, salwch, neu brinder Cyflogeion yr Ymgynghorydd, asiantau neu isgontractwyr, methiant neu oedi gan yr Ymgynghorydd i gyflenwi nwyddau, cydrannau, gwasanaethau neu ddeunyddiau a thorri unrhyw warantau a roddir gan yr Ymgynghorydd yn cael eu hystyried fel Digwyddiad Force Majeure.
- 16.5 Os bydd achos o Force Majeure yn atal y naill Barti neu'r llall rhag perfformio ei rwymedigaethau o dan y Contract mewn unrhyw gyswllt am gyfnod parhaus o chwe deg [60] diwrnod, gall y naill Barti neu'r llall, heb effeithio ar hawliau neu gamau unioni a gronnwyd o dan y Contract, derfynu'r Contract yn syth drwy hysbysu'r Parti arall yn ysgrifenedig.
- 16.7 Os bydd y Contract yn cael ei derfynu yn unol â'r Cymal 16 yma, ni fydd gan y naill Barti unrhyw atebolrwydd i'r llall ac eithrio y bydd unrhyw hawliau ac atebolrwydd a gronnwyd cyn y terfynu yn parhau i fodoli.
- 16.8 Os effeithir ar y Cyngor neu'r lleoliad cyflawni gan Ddigwyddiad Force Majeure, bydd gan y Cyngor hawl i ohirio dyddiad neu ddyddiadau cyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori yn gyfan gwbl neu yn rhannol, nes bod y Digwyddiad Force Majeure yn dod i ben, ac ni fydd unrhyw ohiriad o'r fath yn gallu arwain at hawliad gan yr Ymgynghorydd yn erbyn y Cyngor nac yn canatau i'r Ymgynghorydd derfynu'r Contract.

17. NEWID YN Y GYFRAITH

- 17.1 Pan ddigwydd Newid yn y Gyfraith sydd yn effeithio'n uniongyrchol ar Bris y Contract, bydd y Partïon yn cyfarfod o fewn un deg pedwar [14] diwrnod o'r adeg y bydd yr Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor am y Newid yn y Gyfraith er mwyn ymgynghori a cheisio cytuno ar effaith y Newid yn y Gyfraith ac unrhyw newid ym Mhris y Contract o ganlyniad i hynny.

17.2 Os bydd y Partïon, o fewn un deg pedwar [14] diwrnod o'r cyfarfod y cyfeirir ato yng Nghymal 17.1 heb gytuno ar effaith y Newid yn y Gyfraith, gall yr Ymgynghorydd gyfeirio'r mater at ddatrysiad anghydfod yn unol ag Atodlen 6.

17.3 Bydd unrhyw symiau ychwanegol cytunedig taladwy o ganlyniad i weithredu Cymal 17.1 yn cael eu cynnwys ym Mhris y Contract. Fel na fydd amheuaeth, ni fwriedir i ddim yn y Contract hwn ganiatáu i'r Ymgynghorydd adennill unrhyw gynydd mewn costau ddwywaith.

18. **PERSONEL ALLWEDDOL**

18.1 Bydd Personél Allweddol yn cael eu darparu ar gyfer cyflawni'r Contract a bydd yr Ymgynghorydd yn penodi'r Personél Allweddol canlynol fydd yn gyfrifol am gyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori.

PERSONEL ALLWEDDOL	
i)	Unigolion Penodol - a Theitlau Swyddi
ii)	
iii)	

18.2 Ni fydd Personél Allweddol yn cael eu rhyddhau gan Yr Ymgynghorydd o ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori heb gytundeb y Swyddog Awdurdodedig, ac eithrio o ganlyniad i salwch hirdymor, cyfnod mamolaeth, cyfnod tadolaeth neu derfynu cyflogaeth ac amgylchiadau esgusodol eraill.

18.3 Bydd amnewid unrhyw Personél Allweddol yn ddarostyngedig i gytundeb gan y Swyddog Awdurdodedig (gan weithredu'n rhesymol) a bydd amnewidiadau o'r fath yn cael eu henwi yn y Contract yma. Bydd gan yr amnewidiadau statws cydradd neu brofiad cyfatebol a byddant yn meddu ar y sgiliau cyfatebol i'r hyn sydd gan y Personél Allweddol a amnewidir.

19. **ISGONTRACTAU**

19.1 Ni fydd yr Ymgynghorydd yn aseinio, amnewid, is-gontractio nac yn gwaredu'r Contract neu ran ohono mewn unrhyw ffordd arall heb ganiatâd ymlaen llaw.

19.2 Pan fo'r Cyngor wedi cymeradwyo Is-gontractau, bydd copiâu o bob Is-gontract (a/neu unrhyw wybodaeth ychwanegol fydd y Cyngor yn gofyn amdani mewn perthynas â'r Is-gontract) yn cael ei roi i'r Cyngor mor fuan ag yw'n rhesymol bosibl yn dilyn cais gan y Cyngor mewn perthynas â hynny.

19.3 Ni fydd Is-gontractio unrhyw ran o'r Contract yn rhyddhau'r Ymgynghorydd o unrhyw rai o'i rwymedigaethau neu ddyletswyddau o dan y Contract.

- 19.4 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am weithredoedd a hepgorion ei Is-contractwr fel petaent yn ei weithredoedd a'i hepgorion ei hun.
- 19.5 Bydd gan y Cyngor yr hawl absoliwt i ofyn i'r Ymgynghorydd amnewid Is-contractwr am unrhyw reswm bynnag boed yna seiliau gorfodol neu anorfodol dros wneud hynny neu beidio.
- 19.6 Gall y Cyngor aseinio, amnewid neu waredu ei hawliau a'i rwymedigaethau o dan y Contract neu unrhyw ran ohono mewn unrhyw fodd arall i:
- a) unrhyw gorff arall sydd wedi ei sefydlu gan y Goron neu o dan statud er mwyn perfformio'n sylweddol unrhyw rai o'r swyddogaethau oedd wedi cael eu perfformio gan y Cyngor;
 - b) unrhyw gorff yn y sector preifat sydd yn perfformio'n sylweddol swyddogaethau'r Cyngor; neu
 - c) unrhyw gorff arall sydd wedi ei sefydlu gan y Cyngor neu o dan statud er mwyn perfformio'n sylweddol unrhyw rai o'r swyddogaethau oedd wedi cael eu perfformio gan y Cyngor; neu

(d) fel sy'n ofynnol yn ôl y Gyfraith.

cyn belled nad yw unrhyw gyfryw aseiniad, newyddiad neu ddiddymiad yn cynyddu baich ymrwymiadau'r Ymgynghorydd o dan y Contract hwn.

19.7 perthynas ag Is-contractwyr, bydd y canlynol yn gymwys:

19.7.1 y Dyddiad Cychwyn, bydd yr Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor ynghylch enw, manylion cysylltu, cynrychiolwyr cyfreithiol, ac os yn berthnasol Dogfen Caffael Sengl Ewropeaidd pob Is-contractwr;

19.7.2 unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarperir i'r Cyngor yn unol â Chymal 19.7.1 yn cynnwys unrhyw newid i'r Is-contractwr a ddefnyddir gan y Cyngor i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori; a

19.7.3 gan y Cyngor yr hawl absoliwt i ofyn i'r Ymgynghorydd amnewid Is-contractwr am unrhyw reswm bynnag boed yna seiliad gorfodol neu anorfodol dros wneud hynny neu beidio yn unol â Rheoliad 57Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'u diwygiwyd).

20 AMRYWIOL

20.1 Bydd unrhyw gyfeiriad i unrhyw Ddeddf Seneddol neu unrhyw offeryn deddfwriaethol arall yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad cyfuno neu eu haildeddfu.

20.2 Pan fo'r cyd-destun yn caniatáu hynny, bydd unrhyw gyfeiriad at y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd a vice versa, mae unrhyw gyfeiriad at y diryw yn cynnwys y gwrywaidd a'r benywaidd a vice versa, ac mae unrhyw gyfeiriad at yr unigol yn cynnwys y lluosog a vice versa.

- 20.3 Mae'r penawdau at ddiben rhwyddineb cyfeirio ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongliad y Contract yma.
- 20.4 Ni fydd unrhyw ymwrthodiad neu oedi gan y naill Barti mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd neu ddiffyg wrth weithredu unrhyw ddarpariaeth yn y Contract yma gan y Parti arall yn cael ei ddehongli fel hawlildiad o'r tramgwydd neu ddiffyg hwnnw neu unrhyw dramgwydd neu ddiffyg dilynol. Bydd unrhyw hawlildiad gan y naill Barti o unrhyw dramgwydd neu ddiffyg wrth gyflawni rhwymedigaethau y Parti arall o dan y Contract yma yn gymwys i'r tramgwydd neu ddiffyg hwnnw yn unig ac ni fydd yn golygu hawlildio unrhyw hawl gan y Parti fydd yn hawlildio mewn perthynas ag unrhyw dramgwydd neu ddiffyg dilynol. Bydd unrhyw hawlildiad gan y Cyngor ond yn effeithiol os cyflwynir hynny yn ysgrifenedig ac y'i llofnodir gan y Swyddog Awdurdodedig.
- 20.5 Y Contract yma yw'r cytundeb yn ei gyfanrwydd rhwng y Partion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ymgynghori ac mae'n disodli unrhyw ddealltwriaeth cytundeb neu sylwadau eraill boed hynny yn ysgrifenedig neu ar lafar rhwng y Partion mewn perthynas ag ef. Bydd unrhyw addasiadau i'r Contract yma ond yn ddilys os gwneir hynny gan offeryn yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig gan y naill Barti a'r llall.
- 20.6 Ac eithrio fel y darperir yn Atodlen 5, bydd unrhyw rybudd swyddogol neu ofyniad fydd yn ofynnol o dan y Contract yma fydd yn cael ei roi i'r naill Barti neu'r llall yn ysgrifenedig, a byddir yn tybio y bydd yn cael ei roi os bydd yn cael ei gyfeirio i'r cyfeiriad mwyaf diweddar a roddwyd i'r Parti arall, a:
- i) os caiff ei anfon yn bersonol, pan y'i gadawir yng nghyfeiriad y Parti arall; neu
 - ii) os caiff ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf a ragdalwyd neu wasanaeth postio wedi'i gofnodi, am 9.00am ar yr ail Ddiwrnod Gwaith ar ôl ei bostio; neu
 - iii) os caiff ei anfon gan gariwr masnachol, ar y dyddiad a'r amser y llofnodir derbynneb danfon y cariwr.
- 20.7 Fel na fydd amheuaeth, ni fydd unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiad swyddogol o dan y Contract hwn yn cael eu derbyn drwy ffacs neu e-bost.
- 20.8 Dim ond y Partion gwreiddiol iddo, eu holynwyr yn y teitl ac aseineion awdurdodedig gaiff orfodi'r Contract yma. Mae unrhyw hawliau unrhyw berson i orfodi telerau'r Contract yma yn unol â Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partion) 1999 yn cael eu heithrio.
- 20.9 Bydd yr Ymgynghorydd yn sicrhau y bydd, tra'i fod ar safleoedd y Cyngor, yn cydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys rheoliadau a chodau ymarfer a gyhoeddir oddi tani yn cynnwys unrhyw rai a gyhoeddir a gyhoeddir gan y Cyngor.
- 20.10 Os bydd unrhyw rai o ddarpariaethau'r Contract yma yn cael ei wahardd gan y gyfraith neu os bydd Llys yn barnu eu bod yn anghyfreithlon, yn annilys neu na ellir eu gorfodi, bydd y ddarpariaeth honno, i'r graddau y bydd yn ofynnol, yn cael ei thynnu o'r Contract yma ac yn cael ei dirymu cymaint a phosibl heb addasu

gweddill darpariaethau'r Contract, ac ni fydd mewn unrhyw ffordd yn effeithio ar unrhyw amgylchiadau eraill na dilysrwydd y Contract yma na'r gallu i'w orfodi.

- 20.11 Bydd y Partïon (am ddim cost i'r Parti arall) yn cydymffurfio'n llawn gyda'r Parti arall (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddarparu dogfennau, datganiadau ac ymddangos fel tyst) mewn cysylltiad ag unrhyw achos cyfreithiol, ymholiad ombwdsmon, cyfryngu neu achos llys y bydd y naill Barti neu'r llall yn gysylltiedig ag ef, neu unrhyw wrandawriad disgyblu perthnasol mewnol yn y Cyngor, fydd yn deillio o neu'n gysylltiedig â chyflawni'r Gwasanaethau Ymgynghori, a phan dybir bod hynny yn angenrheidiol bydd y Partïon yn ei gwneud yn ofynnol i'w staff roi tystiolaeth mewn ymholiadau, cyfryngu, achosion neu wrandawriadau o'r fath.
- 20.12 Bydd y Contract hwn ac unrhyw anghydfod neu hawl fydd yn deillio ohono neu'n gysylltiedig ag ef neu ei bwnc yn cael eu llywodraethu gan, ac yn cael eu dehongli'n unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Mae'r naill Barti a'r llall yn cytuno'n ddi-droi'n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr yr awdurdodaeth egsglwsif i setlo unrhyw anghydfod neu hawl fydd yn deillio ohono neu'n gysylltiedig ag ef neu ei bwnc.
- 20.13 Bydd y Cymalau canlynol yn goroesi terfynu neu ddiweddu'r Contract yma:
- a) Cymal 4 (Canlyniadau Terfynu neu Ddiweddu);
 - b) Cymal 5 (Gwybodaeth Gyfrinachol);
 - c) Cymal 6 (Diogelu Data);
 - d) Cymal 7 (Rhyddid Gwybodaeth);
 - e) Cymal 8 (Eiddo Deallusol);
 - f) Cymal 11 (Indemniadau ac Yswiriant);
 - g) Cymal 19.13 (Y Gyfraith ac Awdurdodaeth); ac
 - h) Atodlen 5 (Gweithdrefn Datrys Anghydfodau)
- 20.14 Bydd y naill Barti a'r llall yn talu am eu costau a'r treuliau eu hunain a ysgwyddir mewn cysylltiad â thrafod, paratoi, llunio, cwblhau a gweithredu'r Contract hwn.
- 20.15 Bydd yr Ymgynghorydd yn cydymffurfio â darpariaethau safonau'r Iaith Gymraeg ac unrhyw gynllun neu safonau fydd mewn grym gan y Cyngor o dro i dro.

ATODLEN 1

Pris y Contract

1. Pris y Contract y cytunwyd arno ar gyfer y Gwasanaethau Ymgynghori yw [£] ac nid yw'n cynnwys TAW.
2. Mae Pris y Contract yn benodol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ymgynghori a nodir ym Manyleb y Gwasanaeth.
3. Pan fo'r Ymgynghorydd wedi ei gofrestru ar gyfer TAW, bydd TAW yn cael ei ychwanegu gan yr Ymgynghorydd ar y gyfradd gyfredol fel sydd yn gymwys a bydd yn cael ei dalu gan y Cyngor ar ôl cyflwyno anfoneb TAW dilys.
4. Bydd pob anfoneb yn cynnwys y rhif gorchymyn pryniant a ddarperir gan y Swyddog Awdurdodedig, ac ni fydd anfonebau yn cael eu prosesu gan y Cyngor heb rif gorchmynion prynu.

Treuliau:

Bydd y Cyngor yn talu i'r Ymgynghorydd y symiau canlynol, fel sydd yn briodol, mewn perthynas â'r treuliau a ysgwyddwyd wrth ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori.

5. Bydd y partïon yn cytuno ar amrywio Manyleb y Gwasanaeth a bydd hynny yn cael ei dystiolaethu yn ysgrifenedig gan y Swyddog Awdurdodedig ynghyd ag unrhyw newid i Bris y Contract.
6. Pan ofynnir am hynny, os bydd yr Ymgynghorydd yn methu heb reswm dilys i ddarparu cofnodion y gellir eu gwirio fydd yn rhesymol yn bodloni'r Swyddog Awdurdodedig ar gyfer tystiolaethu am daliad dyledus Pris y Contract, bydd gan y Cyngor hawl i gadw taliadau yn ôl nes y darperir cofnodion o'r fath y gellir eu gwirio, a phan gânt eu darparu bydd y Cyngor yn gwirio cywirdeb yr anfoneb heb unrhyw oedi diangen, ac ni fydd unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth yma yn ddigon o gyfiawnhad i fethu ag ystyried bod anfoneb yn ddilys ac yn ddiddadl.
7. Bydd yr Ymgynghorydd yn anfonebu'r Cyngor am daliad Pris y Contract yn ddim hwyrach na saith [7] diwrnod ar ôl diwedd pob mis (neu mor aml ag y cytunir rhwng y Partïon yn ysgrifenedig) gan fanylu ar y Gwasanaethau Ymgynghori a ddarparwyd yn ystod y mis blaenorol a'r swm sydd yn daladwy gan y Cyngor.
8. Oni chytunir fel arall, bydd y Cyngor yn talu'r Pris y Contract diddadl sydd yn ddyledus i'r Ymgynghorydd mewn arian wedi ei glirio o fewn tri deg [30] diwrnod o dderbyn yr anfonebau.

9. Bydd y Cyngor yn gwneud pob taliad i'r Ymgynghorydd drwy wasanaeth clirio awtomatig y banciau (BACS).
10. Ac eithrio am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, pan nad yw'r Cyngor wedi gwneud taliad i'r Ymgynghorydd erbyn y dyddiad talu a nodir yn yr Atodlen yma, bydd y Cyngor ar gais ysgrifenedig gan yr Ymgynghorydd yn talu llog i'r Ymgynghorydd ar unrhyw swm dyledus ar gyfradd o 4% uwch ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr (mae'r Partïon yn cytuno sydd yn gam unioni contractaidd o sylwedd at ddibenion Deddf Taliadau Hwyr am Ddyledion Masnachol (Llog) 1998, a bydd y cyfryw log yn daladwy y ddyddiad dyledus y taliad nes y gwneir y taliad.

ATODLEN 2

Manyleb Gwasanaethau

(ATODI)

ATODLEN 3

CYNIGION YR YMGYNGORYDD

(ATODI OS YN GYMWYS)

ATODLEN 4

SWYDDOG AWDURDODEDIG AC UNRHYW DDIRPRWY

Swyddog Awdurdodedig	Dirprwy Swyddog Awdurdodedig
Enw: Teitl: Cyngor Sir Ffôn: E-bost:	Enw: Teitl: Cyngor Sir Ffôn: E-bost:

RHEOLWR YMGYNGHORI AC UNRHYW DDIRPRWY

Rheolwr Ymgynghori	Dirprwy Reolwr Ymgynghori
Enw: Teitl: Cyfeiriad Ffôn: E-bost:	Enw: Teitl: Cyfeiriad: Ffôn: E-bost:

ATODLEN 5

- 1.1 Bydd yr Ymgynghorydd (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw is-gontractwr neu drydydd parti) yn cydymffurfio bob amser â Deddfwriaeth Diogelu Data a rhwymedigaethau'r Cyngor mewn perthynas â Data Personol sy'n eiddo i'r Cyngor ac ni fydd yn perfformio ei rwymedigaethau o dan y Contract hwn mewn unrhyw fodd fyddai'n achosi i'r Cyngor dorri ei rwymedigaethau o dan y DPA neu'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.
- 1.2 Bydd y naill Parti a'r llall yn sicrhau y byddant, ynghyd yn cydymffurfio â'u cynrychiolwyr, yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas â'r holl Ddata Personol fydd ar gael iddynt o dan y Contract yma gan y Parti arall neu fydd yn deillio o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaethau Ymgynghori.
- 1.3 Os bydd Data Personol yn cael ei rannu rhwng yr Ymgynghorydd ac unrhyw Is-ymgynghorydd neu drydydd parti o dan y Contract hwn, bydd yr Ymgynghorydd yn sicrhau bod yr Is-ymgynghorydd neu'r trydydd parti yn cydymffurfio â'r Atodlen 5 hon.
- 1.4 Pan derfynir neu ddiweddir y Contract hwn bydd yr Ymgynghorydd, am dim cost i'r Cyngor, yn sicrhau bod Data Personol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Cyngor, neu'n cael ei ddarparu i drydydd parti (yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor) oni bai fod yr Ymgynghorydd yn rhwymedig dan y Gyfraith i gadw'r Data Personol.
- 1.5 Pan derfynir neu ddiweddir y Contract hwn bydd unrhyw Ddata Personol fydd ar ôl ar systemau cyfrifiadurol yr Ymgynghorydd (neu unrhyw Is-gontractwr) yn cael eu dileu oddi ar y systemau cyfrifiadurol yn unol ag arferion y diwydiant mewn perthynas â Dileu Data Ardystiedig.
- 1.6 Heb effeithio ar gyffredinrwydd yr Atodlen 5 yma ac fel na fydd amheuaeth, darperir drwy hyn y bydd yr Ymgynghorydd yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cyngor, ei weision a'i asiantau yn llawn, prydlon ac effeithiol rhag ac yn erbyn pob ac unrhyw gamau, taliadau, hawliadau, costau rhesymol, digolledon, galwadau, treuliau rhesymol (yn cynnwys treuliau cyfreithiol a gweinyddol), atebolrwydd, colledion uniongyrchol ac achosion fydd yn deillio o'i fethiant i gydymffurfio â'r Atodlen 5 yma.
- 1.7 Os bydd angen i hysbysiad gael ei roi rhwng y Rheolwr Data a'r Prosesydd Data, bydd yr hysbysiad yn ysgrifenedig a bydd yn cael ei anfon yn bersonol, neu'n cael ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf wedi'i ragdal, neu drwy gariwr masnachol, i bob Parti y mae'n ofynnol iddynt dderbyn hysbysiad o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ei gyfeiriad fel y nodir hynny yn yr Atodlen 5 yma.

Cyfeiriad ar gyfer Hysbysiadau o dan y Ddeddf Diogelu Data

RHEOLWR DATA Y CYNGOR	PROSESYDD DATA YR YMGYNGHORYDD
Swyddog Diogelu Data Cyngor Sir	

1.8 Ystyrir bod unrhyw hysbysiad fydd yn cydymffurfio â'r Atodlen 5 yma wedi cael ei dderbyn gan y derbynnydd:

- i) os caiff ei anfon yn bersonol, pan y'i gadawir yn y cyfeiriad y cyfeirir ato yn Atodlen 5; neu
- ii) os caiff ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf a ragdalwyd neu wasanaeth postio wedi'i gofnodi, am 9.00am ar yr ail Ddiwrnod Gwaith ar ôl ei bostio; neu
- iii) os caiff ei anfon gan gariwr masnachol, ar y dyddiad a'r amser y llofnodir derbynneb danfon y cariwr.

1.9 Fel na fydd amheuaeth, ni fydd unrhyw hysbysiad o dan yr Atodlen 5 hon yn cael eu derbyn drwy ffacs neu e-bost.

1.10 Bydd yr Ymgynghorydd yn (ac yn sicrhau y bydd ei Is-gontractwr yn):

- i) prosesu data Personol dim ond i'r graddau sydd yn angenrheidiol ar gyfer darparu'r Gwasanaethau, yn ôl y Gyfraith, ne gan unrhyw Gorf Rheoleiddio neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a bydd yr Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor os bydd yn ystyried bod unrhyw un o gyfarwyddiadau'r Cyngor yn mynd yn groes i Deddfwriaeth Diogelu Data;
- ii) sicrhau ei fod wedi sefydlu Camau Diogelu, sydd wedi eu hadolygu â'u cymeradwyo gan y Cyngor fel rhai priodol er mwyn diogelu yn erbyn Digwyddiad Colli Data ar ôl rhoi ystyriaeth i:
 - (i) natur y data sydd i'w ddiogelu;
 - (ii) niwed all ddeillio o Ddigwyddiad Colli Data;
 - (iii) cyflwr datblygiadau technolegol; a
 - (iv) cost gweithredu unrhyw gamau;
- iii) prosesu'r Data Personol yn unol ag Atodlen 5 ac Atodiad A Atodlen 5 yn unig oni bai ei bod yn ofynnol i'r Ymgynghorydd wneud fel arall yn ôl y Gyfraith. Os bydd hynny'n ofynnol bydd yr Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor yn brydlon cyn prosesu'r Data Personol oni waherddir hynny yn ôl y Gyfraith;
- iv) gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol er mwyn diogelu'r Data Personol yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, difrod, dinistr, addasiad neu ddatgeliad drwy ddamwain;

- v) cymryd camau rhesymol i sicrhau dibynadwyedd unrhyw Staff sydd â mynediad i'r Data Personol ac na fydd ei Staff yn prosesu Data Personol dim ond yn unol â'r Contract hwn yn unig (ac Atodlen % Atodiad A yn benodol);
- vi) sicrhau nad oes gan ei Staff (oni bai bod ganddynt awdurdod priodol) fynediad i'r Data Personol ac yn ymrwymo i ymgynghoriadau cyfrinachedd priodol gyda'r Ymgynghorydd neu'r Is-gontractwr;
- vii) caffael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llawn gan y Cyngor i drosglwyddo Data Personol i unrhyw Is-gontractwr neu gysylltiedigion ar gyfer darparu'r Gwasanaethau Ymgynghori;
- viii) sicrhau bod Staff y mae'n ofynnol iddynt gael mynediad i'r Data Personol yn cael eu hysbysu am natur gyfrinachol y Data Personol ac yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a nodir yn yr Atodlen 5yma ac nad yw'n cyhoeddi, datgelu nac yn rhannu unrhyw Ddata Personol i unrhyw drydydd parti oni rhoddir cyfarwyddyd ysgrifenedig iddo wneud hynny gan y Cyngor neu fel y caniateir i wneud hynny fel arall o dan y Contract hwn;
- ix) sicrhau y bydd Staff yn derbyn lefel ddigonol o hyfforddiant mewn diogelu data ac mewn defnyddio, goflau, diogelu a delio â Data Personol;
- x) sicrhau na fydd unrhyw un o'i Staff yn cyhoeddi, datgelu nac yn rhannu dim o'r Data Personol i unrhyw drydydd parti oni rhoddir cyfarwyddyd ysgrifenedig iddo wneud hynny gan y Cyngor;
- xi) hysbysu'r Cyngor o fewn dau ddeg pedwar (24) awr os daw'n ymwybodol o achos neu o achos honedig o dorri Deddfwriaeth Diogelu Data;
- xii) rhoi cydweithrediad a chymorth llawn i'r Cyngor mewn perthynas ag ymchwilio i achosion o dorri Deddfwriaeth Diogelu Data (yn cynnwys archwilio safleoedd a threfniadau diogelwch os bydd hynny'n ofynnol);
- xiii) hysbysu'r Cyngor o fewn pum (5) Diwrnod Gwaith, os bydd yn derbyn:
 - cais gan Wrthrych Data neu drydydd parti i gael mynediad i Ddata Personol; neu
 - gŵyn neu gais mewn perthynas a rhwymedigaethau'r Cyngor o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.
- xiv) yn ôl cyfarwyddyd ysgrifenedig y Cyngor, dileu neu ddychwelyd Data Personol (ac unrhyw gopiâu ohono) i'r Cyngor pan derfynir y Contract oni bai ei bod yn ofynnol i'r Ymgynghorydd yn ôl y Gyfraith i gadw'r Data Personol.

1.11 Bydd yr Ymgynghorydd (a bydd yn sicrhau y bydd ei Is-contractwr) yn rhoi cydweithrediad a cymorth llawn i'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw gŵyn neu gais a dderbynnir, yn cynnwys

- i) rhoi manylion llawn i'r Cyngor am y gŵyn neu'r cais;
- ii) cydymffurfio â'r cais am fynediad i ddata o fewn yr amserlenni perthnasol a nodir mewn Deddfwriaeth Diogelu Data ac yn unol â chyfarwyddyd y Cyngor;
- iii) rhoi i'r Cyngor unrhyw Ddata Personol y mae'n ei ddal mewn perthynas â Gwrthrych y Data (o fewn yr amser sy'n ofynnol gan y Cyngor); a
- iv) rhoi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth arall mae'r Cyngor yn gofyn amdani mewn perthynas â'r gŵyn neu'r cais.

1.12 Ni fydd yr Ymgynghorydd yn trosglwyddo Data Personol y tu allan i'r UE oni bai ei fod wedi cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llawn gan y Cyngor i wneud hynny a bod yr amodau canlynol wedi eu bodoli:

- (i) mae'r Ymgynghorydd wedi darparu mesurau diogelu priodol mewn perthynas â'r trosglwyddiad (boed hynny y unol ag Erthygl 46 GDPR neu Erthygl 37 LED) fel y penderfynir ar hynny gan y Cyngor;
- (ii) mae gan Wrthrych y Data hawliau y gellir eu gorfodi a chymau unioni cyfreithiol effeithiol;
- (iii) mae'r Ymgynghorydd yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data drwy ddarparu lefel ddigonol o ddiogelwch i unrhyw Ddata Personol a drosglwyddir (neu, os nad yw'n rhwymedig i wneud hynny, yn defnyddio ei ymdrechion gorau i gynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau); a
- (iv) mae'r Ymgynghorydd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a roddir iddo ymlaen llaw gan y Cyngor mewn perthynas â phrosesu'r Data Personol;

1.13 Yn ddarostyngedig i gymal 1.15 bydd yr Ymgynghorydd yn hysbysu'r Cyngor yn syth os bydd yn:

- (a) derbyn Cais Mynediad Testun Data (neu Gais Mynediad Testun Data honedig);
- (b) derbyn cais i gywiro, blocio neu ddileu unrhyw Ddata Personol;
- (c) derbyn unrhyw gais, cwyn neu gyfathrebiad arall mewn perthynas â rhwymedigaethau'r naill barti nu'r llall o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data;
- (d) derbyn unrhyw gyfathrebiad gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu unrhyw awdurdod rheoleiddiol arall mewn perthynas â'r Data Personol a broseswyd o dan y Contract hwn;
- (e) derbyn cais gan unrhyw drydydd parti i ddatgelu Data Personol pan fo angen cydymffurfio â chais o'r fath neu yr honnir bod hynny'n ofynnol o dan y Gyfraith; neu
- (f) os y daw'n ymwybodol o Ddigwyddiad Colli Data.

1.14 Bydd yr Ymgynghorydd (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-ymgyngorydd) yn caniatáu i'r Cyngor neu gynrychiolydd y Cyngor (yn ddarostyngedig i

ymgymeriadau cyfrinachedd priodol) archwilio ei weithgareddau prosesu data a chydymffurfio â phob cais neu gyfarwyddyd rhesymol gan y Cyngor i alluogi'r Cyngor i wirio bod yr Ymgynghorydd (neu Is-ymgynghorydd) yn cydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

- 1.15 Bydd rhwymedigaeth yr Ymgynghorydd i hysbysu o dan gymal 1.13 yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth i'r Cyngor fesul tipyn, wrth i fanylion ddod ar gael.
- 1.16 Bydd yr Ymgynghorydd yn darparu pob cymorth rhesymol i' Cyngor wrth baratoi unrhyw Aseiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cychwyn ar unrhyw brosesu. Gall cymorth o'r fath gynnwys:
- (i) disgrifiad systematig o'r gweithgareddau prosesu a ragwelir a phwrpas y prosesu;
 - (ii) asesiad o'r hanfodlonrwydd a chymesuredd y gweithgareddau prosesu mewn perthynas â'r Gwasanaethau Ymgynghori;
 - (ii) asesiad o'r risgiau i hawliau a rhyddid Gwrthrychau Data; a
 - (iii) y camau y rhagwelir fyddir yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau yn cynnwys mesurau diogelu, mesurau a mecanweithiau diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch Data Personol.
- 1.17 Gan ystyried natur y prosesu, bydd yr Ymgynghorydd yn rhoi i'r Cyngor gymorth llawn mewn perthynas â rhwymedigaethau'r naill barti neu'r llall o dan Deddfwriaeth Diogelu Data ac unrhyw gŵyn, cyfathrebiad neu gais (a chyhyd â phosibl o fewn yr amser sy'n rhesymol ofynnol gan y Cyngor) yn cynnwys drwy ddarparu'n brydlon:
- (a) fanylion llawn i'r Cyngor a chopïau o'r gŵyn, cyfathrebiad neu'r cais;
 - (b) cymorth ar gais rhesymol y Cyngor er mwyn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r cais am fynediad i ddata o fewn yr amserlenni perthnasol a nodir mewn Deddfwriaeth Diogelu Data;
 - (c) unrhyw Ddata Personol y mae'n ei ddal mewn perthynas â Gwrthrych Data i'r Cyngor ar gais;
 - (d) cymorth ar gais y Cyngor yn dilyn Digwyddiad Colli Data;
 - (e) cymorth ar gais rhesymol y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw gais gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, neu unrhyw ymgynghoriad â'r Cyngor gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- 1.18 Bydd yr Ymgynghorydd yn cadw cofnodion a gwybodaeth llawn a chywir er mwyn dangos ei fod yn cydymffurfio â'r Atodlen 5 yma cyn belled nad yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r Ymgynghorydd yn cyflogi llai na 250 o Staff, oni bai:
- (a) bod y Cyngor yn penderfynu nad yw'r prosesu yn achlysurol;
 - (b) bod y Cyngor yn penderfynu bod y prosesu yn cynnwys categorïau data arbennig fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 9(1) y GDPR neu Ddata Personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol y cyfeirir atynt yn Erthygl 10 y GDPR; a

(c) mae'r Cyngor yn penderfynu bod y proses yn debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddid Gwrthrychau'r Data.

- 1.19 Bydd yr Ymgynghorydd yn dynodi swyddog diogelu data os bydd hynny'n ofynnol o dan Deddfwriaeth Diogelu Data.
- 1.20 Cyn caniatáu i unrhyw Is-gontractwr brosesu unrhyw Ddata Personol mewn perthynas â'r Contract hwn, bydd yr Ymgynghorydd yn:
 - (a) hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am yr Is-gontractwr a'r prosesu;
 - (b) caffael caniatâd ysgrifenedig gan y Cyngor;
 - (c) ymrwymo i gytundeb ysgrifenedig â'r Is-gontractwr fydd yn rhoi grym i'r telerau a nodir yn yr Atodlen 5 yma fel eu bod yn gymwys i'r Is-ymgynghorydd; a
 - (d) rhoi i'r Cyngor wybodaeth mewn perthynas â'r Is-gontractwr ar gais rhesymol y Cyngor.
- 1.21 Bydd yr Ymgynghorydd yn parhau i fod yn gwbl atebol am bob gweithred a hegoriad unrhyw Is-gontractwr.
- 1.22 Gall yr Ymgynghorydd, ar unrhyw adeg sydd ddim yn llai na chyfnod o 30 Diwrnod Gwaith o rybudd, adolygu'r Atodlen 5 yma drwy ei hamnewid â chymalau am safon rheolwr i brosesydd cymwys neu delerau cyffelyb fydd yn rhan o gynllun ardystio cymwys.
- 1.23 Mae'r Partion yn cytuno i roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gall y Cyngor ar unrhyw adeg sydd ddim yn llai na chyfnod o 30 Diwrnod Gwaith o rybudd i'r Ymgynghorydd ddiwygio'r Contract hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- 1.24 Bydd yr Ymgynghorydd (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn caniatáu i'r Cyngor neu gynrychiolydd y Cyngor (yn ddarostyngedig i ymgymeriadau cyfrinachedd priodol) archwilio ei weithgareddau prosesu data a chydymffurfio â phob cais neu gyfarwyddyd rhesymol gan y Cyngor i alluogi'r Cyngor i wirio bod yr Ymgynghorydd (neu Is-gontractwr) yn cydymffurfio'n llawn â'i rwymedigaethau o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Atodlen 5 Atodiad A

Prosesu, Data Personol a Gwrthrychau Data

Bydd yr Ymgynghorydd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig ychwanegol a roddir gan y Cyngor mewn perthynas â phrosesu Data Personol.

2. Bydd unrhyw gyfryw gyfarwyddiadau ychwanegol yn cael eu hymgorffori yn yr Atodiad A yma.

Manylion Disgrifio

Pwnc y prosesu

Dylai hyn fod yn ddisgrifiad byr, lefel uchel, o beth mae'r prosesu yn gysylltiedig ag ef h.y. ei bwnc.

Cyfnod y

prosesu

Nodwch yn glir beth yw cyfnod y prosesu yn cynnwys dyddiadau

Natur a dibenion y prosesu

Byddwch mor fanwl a phosibl os gwelwch yn dda, ond sicrhewch eich bod yn cynnwys pob diben a fwriedir. Mae natur y prosesu yn golygu unrhyw weithgaredd megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu drwy drawsyrro, rhannu neu ei roi ar gael fel arall, alinio neu gyfuno, gwahardd, dileu neu ddinistrio data (boed hynny drwy ddulliau awtomeiddiedig neu beidio) etc. Gall y dibenion gynnwys: prosesu cyflogaeth, rhwymedigaeth statudol, asesu recriwtio etc.

Math o Ddata Personol

Mae enghreifftiau yma yn cynnwys: enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif YC, rhif ffôn, cyflog, delweddau, data biometreg etc.

Categoriâu Gwrthrychau Data

Mae enghreifftiau yn cynnwys: Staff (yn cynnwys gwirfoddolwyr, asiantau, a gweithwyr dros dro), cwsmeriaid/cleientiaid, cyflenwyr, cleifion, myfyrwyr / disgyblion, aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwefan benodol etc.

Cadw Data Personol

Disgrifiwch am ba mor hir y bydd y data personol yn cael ei gadw, sut y bydd yn cael ei ddychwelyd, neu sut y bydd yn cael ei ddinistrio.

ATODLEN 6

GWEITHDREFN DATRYS ANGHYDFOD

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Atodlen yma yn nodi'r weithdrefn datrys Anghydfodau o dan y Contract yma.
2. Bydd y Cyngor yn darparu cymorth gweinyddol ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau, yn cynnwys galw cyfarfodydd, cofnodi a rhannu penderfyniadau fel sy'n briodol, etc.
3. I ddechrau bydd pob problem neu anghydfodau fydd yn codi rhwng y Partïon yn cael eu trafod cyn mor gyflym â phosibl rhwng yr Ymgynghorydd a'r Swyddog Awdurdodedig gyda'r nod o ddatrys yn gyflym heb yr angen i gymryd camau ffurfiol o dan y weithdrefn hon.
4. Os bydd y broses anffurfiol yma yn methu ag arwain at ddatrasiad, gall y naill Barti neu'r llall gyfeirio at y weithdrefn sydd yn dechrau ar Gam 1.

CAM 1

1. Bydd y naill Barti neu'r llall yn amlinellu'r anghydfod yn ysgrifenedig ac yn ei anfon i'r Parti arall.
2. Bydd y Swyddog Awdurdodedig o fewn saith [7] diwrnod o roi hysbysiad anghydfod o'r fath yn trefnu cyfarfod rhwng yr holl Partïon fydd yn cael ei gynnal mewn lleoliad ac ar ddyddiad fydd yn gyfleus i bawb (fydd mewn unrhyw achos ddim yn fwy na dau ddeg un [21] diwrnod o roi'r cyfryw hysbysiad anghydfod ysgrifenedig).
3. Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan y Swyddog Awdurdodedig (neu unrhyw berson arall fel y cytunir ar hynny rhwng y Partïon) a bydd unrhyw unigolion perthnasol eraill y mae'r naill Barti neu'r llall yn ystyried sydd yn briodol yn ei fynychu.
4. Pwrpas y cyfarfod yma fydd trafod a chofnodi'r anghydfod a cheisio sefydlu datrasiad/cynllun gweithredu cytunedig.
5. Os cytunir ar gynllun gweithredu er mwyn datrys yr anghydfod bydd y Swyddog Awdurdodedig yn gyfrifol am anfon cofnodion y cyfarfod i'r Ymgynghorydd o fewn saith [7] diwrnod o'r cyfarfod ac yn monitro sut mae'r cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith.
6. Os bydd y cyfarfod o dan y Cam 1 yma yn methu ag arwain at ddatrasiad i'r anghydfod, neu os bydd y cynllun gweithredu yn methu â datrys yr anghydfod o fewn amser rhesymol, gall y naill Barti neu'r llall symud ymlaen i Gam 2.

CAM 2 - CYFRYNGU

1. Bydd cost cyfryngu yn cael ei ysgwyddo yn hafal gan y ddau Barti (oni bai bod y cyfryngwr yn canfod fel arall).
2. Mae'r Partïon yn cytuno y bydd penderfyniad cyfryngu o'r fath yn rhwymedig.
3. Mae'r weithdrefn ar gyfer cyfryngu a darpariaethau canlyniadol mewn perthynas â chyfryngu fel a ganlyn:
 - i) bydd ymgynghorydd neu gyfryngwr niwtral (y "Cyfryngwr") yn cael ei ddewis drwy gytundeb rhwng y Partïon, neu os na fyddant yn gallu cytuno ar Gyfryngwr byddant yn gwneud cais i'r Ganolfan Datrys Anghydfodau Effeithiol ("CEDR") er mwyn penodi Cyfryngwr;
 - ii) byd y Partïon, o fewn deg [10] Diwrnod Gwaith o benodi'r Cyfryngwr, yn cytuno ar raglen ar gyfer cyfnewid yr holl wybodaeth berthnasol a'r strwythur fydd yn cael ei fabwysiadu ar gyfer y trafodaethau fydd yn cael eu cynnal. Os ystyrir bod hynny yn briodol, gall y Partïon ar unrhyw gam ofyn am gymorth gan CEDR i ddarparu arweiniad ar weithdrefn addas;
 - iii) oni chytunir fel arall, bydd yr holl drafodaethau cysylltiedig â'r Anghydfod ac unrhyw setliad neu gytundeb mewn perthynas ag ef yn cael ei gynnal yn gyfrinachol ac heb effeithio ar hawliau'r Partïon mewn unrhyw achos yn y dyfodol;
 - iv) os bydd y Partïon yn dod i gytundeb ar ddatrysiad yr Anghydfod, bydd y cytundeb yn cael ei ysgrifennu a bydd y Partïon yn rhwymedig iddo ar ôl iddo gael ei lofnodi gan eu cynrychiolwyr awdurdodedig;
 - v) os na ellir dod i gytundeb, gall y naill Barti neu'r llall wahodd y Cyfryngwr i ddarparu barn seiliedig ar wybodaeth nad yw'n rhwymedig. Bydd opsiwn o'r fath yn cael ei ddarparu yn ddiuedd ac ni fydd yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos mewn perthynas â'r Contract heb ganiatâd ysgrifenedig y ddau Barti ymlaen llaw; ac
 - vi) os bydd y Partïon yn methu â chytuno yng Ngham 2 o fewn pedwar deg [40] Diwrnod Gwaith o benodi Cyfryngwr, neu unrhyw gyfnod arall y cytunir arno gan y Partïon, gellir cyfeirio'r Anghydfod at lysoedd Cymru a Lloegr.